
estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon

Hydref 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Effaith mentora myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon ar yr ysgol fel sefydliad dysgu** | **9** |
| Beth yw'r manteision i'r ysgol? | 9 |
| Diwylliant yr ysgol | 10 |
| Dewis a lleoli mentoriaid yn strategol | 11 |
| **Mentora effeithiol** | **13** |
| Dealltwriaeth mentoriaid o'u rôl | 13 |
| Ymgysylltiad mentoriaid â dysgu proffesiynol | 13 |
| Arfer asesu: adborth llafar | 15 |
| Arfer asesu: adborth ysgrifenedig | 16 |
| Gosod targedau | 16 |
| Defnyddio llyfrau sylwadau | 17 |
| Darparu profiadau dysgu strwythuredig | 17 |
| Cefnogi lles myfyrwyr | 18 |
| Hyfforddi a datblygu mentoriaid | 19 |
| Sicrhau ansawdd a gwella arfer | 20 |
| **Datblygu medrau dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa** | **23** |
| **Sail y dystiolaeth** | **26** |
| **Atodiad 1:  Cwestiynau hunanarfarnu i ysgolion** | **27** |
| **Atodiad 2:  Egwyddorion Mentora a Hyfforddi (Llywodraeth Cymru, 2014)** | **29** |
| **Geirfa** | **30** |
| **Cyfeiriadau** | **31** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, darparwyr addysg gychwynnol athrawon, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad:

- yn canolbwyntio ar fentora mewn addysg gychwynnol athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru
- yn archwilio rôl y mentor a beth sy'n gwneud arfer effeithiol mewn mentora
- yn archwilio'r berthynas rhwng dysgu proffesiynol yn yr ysgol a mentora effeithiol mewn addysg gychwynnol athrawon
- yn edrych ar y modd y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu medrau a phriodoleddau dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa, a rôl mentora effeithiol yn y broses hon
- yn ystyried rolau sefydliadau addysg uwch (SAUau) ac ysgolion o ran datblygu arfer effeithiol o ran mentora

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu i ddarparu astudiaeth waelodlin ar gyfer diwygio addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau meddwl yn feirniadol athrawon dan hyfforddiant, a'u medrau myfyrio ac arfarnu, fel medrau hanfodol ar gyfer dysgu proffesiynol, rôl y mentor o ran datblygu'r medrau hyn, a'r modd y mae cymryd rhan mewn mentora mewn addysg gychwynnol athrawon yn effeithio ar, ac yn ymwneud â, dysgu proffesiynol mewn ysgolion yn fwy cyffredinol.

## Cefndir

### Addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Ar hyn o bryd, mae tair canolfan ranbarthol hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru. Y llynedd, cwblhaodd 640 o athrawon dan hyfforddiant ysgol gynradd a 505 o athrawon dan hyfforddiant ysgol uwchradd raglenni addysg gychwynnol athrawon, ac ennill Statws Athro Cymwys yn y canolfannau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018). Dros y cyfnod 2012-2015, arolygodd Estyn pob un o'r tair canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Rhoddwyd un ganolfan yn y categori monitro gan Estyn, ac roedd angen ailarolygiad ar y ddwy ganolfan arall. Tynnwyd y ddwy ganolfan yr oedd angen eu hailarolygu o'r categori gweithgarwch dilynol hwn yn ddiweddarach.

**Canfyddiadau arolygu 2012-2015**

Mae gan bob canolfan rai nodweddion da cyffredin, sef:

- Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn bodloni'r safonau ar gyfer SAC
- Mae gan y rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant ddealltwriaeth dda o ofynion y cwricwlwm
- Mae gan athrawon dan hyfforddiant agweddau cadarnhaol
- Mae ychydig o enghreifftiau o addysgu o ansawdd uchel iawn mewn prifysgolion, a mentora da iawn mewn ysgolion

Fodd bynnag, nododd arolygwyr fod angen datblygu'r meysydd canlynol hefyd:

- Medrau cynllunio athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig o ran defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cynllunio a chynllunio hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion.
- Medrau myfyriol athrawon dan hyfforddiant, eu gallu i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil ac arfarnu eu harfer eu hunain.
- Ansawdd y mentora – mae hyfforddiant yn rhannau rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn yr ysgol yn rhy amrywiol ac yn dibynnu ar fedrau ac arbenigedd mentor yr ysgol. Gan fod myfyrwyr yn treulio hyd at ddwy o bob tair rhan o'u hyfforddiant mewn ysgol, mae hyn yn wendid sylweddol yn y system. Mewn gormod o achosion, nid yw myfyrwyr yn derbyn mentora sy'n ddigon effeithiol i'w helpu i wneud cynnydd da.
- Ansawdd hyfforddiant prifysgol – mae hyfforddiant yn rhy amrywiol ar draws ac o fewn rhaglenni. Yn ychwanegol, nid yw prifysgolion yn datblygu gallu ymchwil adrannau addysg gychwynnol athrawon.
- Asesu cynnydd myfyrwyr – mae gormod o fentoriaid yn rhy hael yn eu hadborth i hyfforddeion a'u hasesiad ohonynt, ac nid ydynt yn darparu targedau sy'n canolbwyntio'n ddigon clir ar feysydd i hyfforddeion eu datblygu.
- Arweinyddiaeth hyfforddiant cychwynnol i athrawon – bu arweinyddiaeth ar bob lefel yn faes i'w ddatblygu ym mhob un o'r tair canolfan a arolygwyd. Mae tystiolaeth trwy weithdrefnau gweithgarwch dilynol Estyn fod arweinyddiaeth strategol, arweinyddiaeth ganol a hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn datblygu ar draws y sector.
- Nid yw systemau sicrhau ansawdd ar draws y brifysgol ac ysgolion partneriaeth yn ddigon trylwyr i sicrhau cysondeb mewn arfer na darpariaeth.
- Trefniadau partneriaeth ag ysgolion – nid yw darparwyr addysg gychwynnol athrawon yn manteisio'n ddigon da ar y bartneriaeth ag ysgolion i sicrhau bod myfyrwyr yn elwa ar yr arfer orau.

(Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015, Estyn, 2016, tud.106)

**Diwygio addysg gychwynnol athrawon**

Yn dilyn adolygiadau o hyfforddiant i athrawon yng Nghymru gan Tabberer (2013) a Furlong (2015), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhaid i holl ddarpar ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon gyflwyno cynigion ar gyfer rhaglenni newydd.

O fis Medi 2019, mae angen i bob rhaglen addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru gael eu hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Bydd y swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan fwrdd achredu addysg gychwynnol athrawon CGA. Mae angen i'r holl ddarpar raglenni ddangos y byddant yn bodloni'r meini prawf achredu yn Addysgu Athrawon Yfory (Llywodraeth Cymru, 2017a).

Mae'r gweithdrefnau achredu newydd yn pwysleisio'r dysgu a'r profiadau unigryw y gellir eu cael yn y brifysgol ac yn yr ysgol. Mae'r arfer fwyaf effeithiol yn caniatáu ar gyfer partneriaeth rhwng prifysgolion a'u hysgolion cysylltiedig lle mae diwylliant o ddysgu a rhannu. Yn unol â'r meini prawf, bydd angen i brifysgolion ffurfio partneriaeth â grŵp llai o ysgolion effeithiol. Bydd angen i'r bartneriaeth ailystyried y profiadau dysgu arfaethedig yn yr ysgol ac yn y brifysgol mewn ffordd sy'n dod â theori ac arfer at ei gilydd mewn ffordd fwy trylwyr, gan alluogi myfyrwyr i ddadansoddi'n feirniadol eu haddysgu eu hunain, ac addysgu pobl eraill.

**Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys**

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae'r safonau newydd yn wahanol i fodelau blaenorol sydd wedi cael eu defnyddio gan y proffesiwn. Cânt eu hategu gan set o werthoedd a nodweddion y disgwylir i bob athro eu harddangos. Bwriedir i'r safonau fod yn ddatblygiadol, gyda fframwaith cyffredin yn cwmpasu gyrfa gyfan athro o statws athro cymwys (SAC), i arfer hynod effeithiol, gan gynnwys arweinyddiaeth.

Mae pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gyda phwyslais cryf ar addysgeg, sef:

- addysgeg (mireinio addysgu; datblygu dysgu; dylanwadu ar ddysgwyr);
- cydweithio
- dysgu proffesiynol
- arloesedd
- arweinyddiaeth

Mae pob un o'r safonau hyn wedi'i rhannu'n nifer o elfennau gwahanol, sy'n golygu y gellir archwilio'r safonau'n fanylach, i gynorthwyo â myfyrio a dysgu proffesiynol. Mae gan bob elfen ddisgrifydd sy'n dangos pob safon yn cael ei chymhwyso, gan gynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer dyfarnu SAC. Wrth farnu cymhwysedd athrawon dan hyfforddiant, bydd yn rhaid i bartneriaethau yn y dyfodol felly asesu myfyrwyr yn erbyn y 32 datganiad tystiolaeth benodol hwn.

Bydd y Safonau newydd yn statudol mewn addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2019. Mae'r bwriad i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gydol eu gyrfa yn allweddol i'r Safonau Proffesiynol newydd.

## Mentora

Gellir diffinio mentora mewn addysg i athrawon fel perthynas un i un rhwng athro cymharol ddibrofiad (y mentorai) ac athro cymharol brofiadol (y mentor), sy'n anelu at gefnogi dysgu a datblygiad y mentorai fel athro, a'i integreiddio yn niwylliannau'r ysgol a'r proffesiwn. Gwelir mentora fel 'gweithgaredd datblygiadol angenrheidiol, gyda'r pwyslais ar rymuso a galluogi [mentoreion] i wneud pethau drostynt eu hunain' (Clutterbuck, 2004, tud.11)

Fodd bynnag, mae Hobson a Malderez (2013), yn disgrifio rolau amrywiol posibl y mentor:

> Yn y broses fentora, gallai mentor fabwysiadu nifer o rolau neu safiadau cefnogol, gan gynnwys fel addysgwr (sy'n cynnwys, er enghraifft, gwrando, hyfforddi a chreu cyfleoedd priodol ar gyfer dysgu proffesiynol y mentorai), model (ysbrydoli, dangos a gwneud agweddau ar fod yn athro yn weladwy), addaswr (helpu'r mentorai i fod yn aelod llawn o'r diwylliant proffesiynol penodol), noddwr ('agor drysau' a chyflwyno'r mentorai i'r 'bobl gywir'), a darparwr cymorth seicolegol (rhoi lle diogel i'r mentorai ryddhau emosiynau neu 'gael gwared ar egni'). (tud. 2).

Maent hefyd yn nodi rhan arall sy'n cael ei chwarae gan y mentor, sef 'Yn ogystal â'r rolau hyn, neu yn eu lle, mae rhai mentoriaid yn mabwysiadu rôl barnwr, ac yn cymryd rhan mewn mentora beirniadol – yr ydym yn ei alw'n 'fentora-barnu'. (tud. 2).

Mae Hobson a Malderez (2013) yn dadlau bod rôl 'mentor sy'n barnu' yn peryglu'r berthynas fentora a'i manteision posibl. Mae'r darlun y maent yn ei roi yn pwysleisio'r agwedd ddeuol ar y rôl fentora, sef cynorthwyo a herio, ac asesu.

Yn nogfen arweiniad Llywodraeth Cymru, 'Egwyddorion Mentora a Hyfforddi' (2014), disgrifir mentora fel '…proses strwythuredig, gyson ar gyfer cynorthwyo dysgwyr proffesiynol trwy drosglwyddiadau arwyddocaol mewn gyrfa.' Mae hyfforddi, o'i gyferbynnu, 'yn broses strwythuredig a chyson ar gyfer galluogi datblygu agwedd benodol ar arfer dysgwr proffesiynol.' Mae Atodiad 2 yr adroddiad hwn yn amlinellu deg egwyddor mentora a hyfforddi effeithiol y ddogfen arweiniad.

## Dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa

Mae'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu yn darparu'r disgrifydd canlynol ar gyfer dysgu proffesiynol:

> 'Mae'r athro yn cynyddu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth yn gyson a gall ddangos sut mae myfyrio a bod yn barod i gael ei herio a'i gefnogi yn gallu cyfrannu at ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol'. (Llywodraeth Cymru, 2017b, tud.16).

Mae myfyrio yn fedr hanfodol mewn dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa. Mae dogfen 'Ymarfer Myfyriol' Llywodraeth Cymru (2015) yn nodi'r elfennau myfyrio canlynol:

- Myfyrio: mae'n cynnwys galw i gof, disgrifio ac esbonio'r hyn a ddigwyddodd, yn ogystal â meddwl am ganlyniadau'r hyn rydych yn ei wneud.

- Meddwl yn feirniadol: mae hyn yn golygu mynd â myfyrio i lefel uwch. Mae'n cynnwys arfarnu arfer a dadlau o blaid newid ar sail tystiolaeth gadarn. Mae hyn yn cynnwys bod yn hunanfeirniadol, cwestiynu'r rhagdybiaethau a fu'n sail i ddatblygu credoau a gwerthoedd personol, a beirniadu gwaith pobl eraill. Mae myfyrio beirniadol yn elfen o arfer fyfyriol, sy'n canolbwyntio ar heriau a wynebir mewn cyd-destun proffesiynol. Pan fydd mewnwelediad newydd yn arwain at newid neu welliant, daw myfyrio yn arfer fyfyriol
- Arfarnu: barnu ansawdd neu werth rhywbeth. I athrawon dan hyfforddiant, mae hyn yn golygu gallu barnu effeithiolrwydd eu strategaethau addysgu, eu medrau addysgu a'u hadnoddau o ran dysgu disgyblion.

**Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu**

Mae'r OECD (2016) yn rhoi'r disgrifiad canlynol o'r ysgol fel 'sefydliad dysgu':

> Mewn ysgol fel sefydliad dysgu, mae staff yn ymgysylltu'n llawn â nodi'r nodau a'r blaenoriaethau ar gyfer eu dysgu proffesiynol eu hunain yn unol â nodau'r ysgol ac anghenion dysgu myfyrwyr, fel y diffinnir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol y staff hefyd wedi'i seilio ar asesu ac adborth parhaus y dylid eu cynnwys yn eu harferion dyddiol. Mae myfyrio, dadansoddi a heriau o'r fath i batrymau meddwl sefydledig yn angenrheidiol i ysgogi ac ymgorffori newid ac arloesedd mewn arfer addysgol. (tud. 3).

Mae'r OECD (2014) yn nodi arfer effeithiol wrth helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r medrau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa, a'r berthynas rhwng mentora myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon a datblygu'r ysgol fel sefydliad dysgu. Mae llawer o astudiaethau arfer effeithiol mewn addysg gychwynnol athrawon o bob cwr o'r byd sy'n nodi bod y medrau meddwl yn feirniadol hyn yn hanfodol i'r 'ymarferwr sy'n meddwl'. Er enghraifft, mae'r OECD yn disgrifio addysg gychwynnol athrawon yn Norwy fel a ganlyn:

> Mae'r rhaglenni hyfforddi athrawon yn seiliedig ar ymchwil hefyd. Rhaid iddynt fod wedi'u hangori'n ymhlyg ac yn eglur mewn ymchwil. Mae hyn yn cynnwys y rhaglenni addysg yn addysgu am ddulliau gweithio gwyddonol, meddwl yn feirniadol a gwybodaeth gydnabyddedig yn seiliedig ar ymchwil, ac ennyn diddordeb y myfyrwyr yn y rhain. Bydd prosesau dysgu yn seiliedig ar ymchwil yn datblygu annibyniaeth, medrau dadansoddol a myfyrio beirniadol y myfyrwyr fel eu bod nhw fel athrawon yn gallu defnyddio gwybodaeth newydd a datblygu eu hunain, eu proffesiwn a'u gweithle ymhellach ar ôl cwblhau eu haddysg. (tud. 73).

## Prif ganfyddiadau

1 Mae’r mentora mwyaf effeithiol yn digwydd mewn ysgolion lle ceir diwylliant dysgu sefydledig. Yn yr ysgolion hyn, mae ffocws cryf ar ddatblygu addysgu effeithiol. Ystyrir bod cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i wella eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn rhan o gontinwwm dysgu proffesiynol. Mae’r ysgolion hyn yn gweld eu hunain fel ‘ysgolion dysgu’ a bod yr arfer o ddatblygu athrawon dan hyfforddiant yn rhan o’r un broses â datblygu athrawon wrth eu gwaith.

2 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae gan fentora statws uchel. Mae penaethiaid yn nodi mentoriaid yn strategol. Maent yn sicrhau bod gan fentoriaid y medrau arwain i ddatblygu pobl eraill. Mae’r ysgolion hyn yn buddsoddi yn eu mentoriaid ac yn sicrhau eu bod yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn dda. Mae uwch fentoriaid yn yr ysgolion hyn yn sicrhau bod mentora’n cael ei wneud yn effeithiol, a’i fod yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr, mentoriaid a’r ysgol. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, hyd yn oed ble mae pwyslais ar ddatblygu a hyfforddi athrawon, nid yw mentoriaid yn cymhwyso’r medrau y maent wedi’u dysgu trwy weithgareddau datblygu proffesiynol ysgol gyfan wrth fentora athrawon dan hyfforddiant.

3 Mae’r hyfforddiant i fentoriaid a ddarperir gan y canolfannau addysg gychwynnol athrawon ar hyn o bryd yn rhoi gormod o bwyslais ar gwblhau dogfennau yn hytrach na datblygu’r medrau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd eu hangen i fentora’n llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd addysg gychwynnol athrawon yn canolbwyntio gormod ar gysondeb a chydymffurfio ar draul sicrhau ansawdd. O ganlyniad, nid oes gan ganolfannau addysg gychwynnol athrawon brosesau digon trylwyr i nodi’r cryfderau a’r gwendidau mewn mentora, ac nid ydynt yn rhannu arfer orau yn ddigon effeithiol chwaith. Nid oes dealltwriaeth ar y cyd o hyfforddi a mentora ac mae gormod o fentoriaid nad ydynt yn meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau digon da o ran yr ymagweddau mwyaf effeithiol at addysg i athrawon.

4 Mae gan lawer o fentoriaid ddealltwriaeth dda o’u rôl, fel sy’n ofynnol gan y ganolfan addysg gychwynnol athrawon. Mae mentoriaid yn ystyried eu rôl yn bennaf o ran cynorthwyo myfyrwyr i fodloni’r safonau ar gyfer SAC ac asesu eu cynnydd tuag at y nod hwn. Ychydig iawn o fentoriaid sy’n gweld eu rôl fel addysgwyr athrawon sy’n ymgysylltu ag addysgeg addysg gychwynnol athrawon, neu’n nodi’n benodol y dulliau y maent yn eu defnyddio i addysgu myfyrwyr ynglŷn â sut i addysgu, gan gynnwys datblygu gwybodaeth bwnc a datblygu addysgeg.

5 Mae’r mentoriaid mwyaf effeithiol prin yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i feithrin gwybodaeth a phrofiad myfyrwyr yn gynyddol, gan ddechrau â gweithgareddau dysgu mwy strwythuredig ac a gefnogir a datblygu annibyniaeth, myfyrdod a medrau beirniadol myfyrwyr wrth iddynt fod yn fwy profiadol. Maent yn meithrin gwydnwch myfyrwyr yn dda.

6 Yn aml, mae’r mentoriaid effeithiol hyn yn mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol, ymchwil, neu astudio ar lefel uwch. Er nad yw’r

cyfleoedd dysgu hyn bob amser yn ymwneud yn uniongyrchol â mentora athrawon dan hyfforddiant, gall y mentoriaid hyn drosglwyddo eu dysgu i ystyried y modd y mae myfyrwyr yn datblygu eu haddysgu. Mae'r mentoriaid hyn yn defnyddio medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant. Maent yn fodelau rôl da o ran dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa. Mae ychydig o fentoriaid sydd wedi dilyn rhaglenni arwain yn trosglwyddo agweddau ar yr hyfforddiant hwn yn ddeallus i gyd-destun mentora. Yn benodol, mae eu dysgu am fedrau rhyngbersonol, adeiladu tîm a datblygu pobl eraill wedi eu helpu i ddatblygu'r ymwybyddiaeth emosiynol i roi adborth i fyfyrwyr sy'n sensitif, yn galonogol ac yn ysgogol.

7 Mae mentoriaid effeithiol yn darparu adborth ysgrifenedig cywir sy'n cofnodi cynnydd myfyrwyr yn deg ac yn gyfannol. Maent yn disgrifio targedau penodol, ac yn cynorthwyo myfyrwyr trwy ystod eang o brofiadau dysgu i fodloni'r targedau hyn. Mae'r mentoriaid mwyaf effeithiol yn addysgu eu myfyrwyr gan ddefnyddio 'sgyrsiau dysgu', deialog sy'n datblygu medrau beirniadol a myfyriol myfyrwyr, ac yn helpu myfyrwyr i ddadansoddi arfer addysgu ac ystyried theori addysgol.

8 Ar hyn o bryd, nid oes digon o gysylltiadau rhwng yr agweddau yn y brifysgol ac yn yr ysgol ar raglenni addysg gychwynnol athrawon, ac nid oes digon o gyfleoedd i fyfyrwyr gysylltu theori addysgol ag arfer addysgu.

9 Ychydig iawn o fyfyrwyr sy'n gallu nodi'r medrau a'r ymddygiadau y mae angen iddynt eu cael ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr yn datblygu eu medrau dadansoddi, myfyrio ac arfarnu beirniadol yn ddigon da dros gyfnod eu rhaglenni. Nid ydynt yn ymgymryd yn ddigon da ag ymchwil a deialog broffesiynol â'u tiwtoriaid a'u mentoriaid i wneud y cysylltiadau hanfodol rhwng theori ac arfer.

10 Mae mwyafrif o fyfyrwyr yn elwa ar ymgymryd â phrosiectau ymchwil sy'n gofyn iddynt fyfyrio ar addysgu a dysgu a chysylltu hyn yn werthfawr ag ymchwil addysgol. Hefyd, mae'r prosiectau hyn yn helpu mentoriaid i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o theori mewn perthynas ag arfer. Fodd bynnag, nid yw llawer o fyfyrwyr yn gweld bod yr aseiniadau y mae'n ofynnol iddynt eu hysgrifennu yn eu helpu i ddatblygu eu medrau addysgu.

11 Ar y cyfan, nid yw myfyrwyr yn myfyrio'n ddigon beirniadol yn yr arfarniadau ysgrifenedig o'u haddysgu a'u cynnydd yn unol â'u targedau. Nid ydynt yn cyflwyno tystiolaeth o feddwl manylach, fel gwneud cysylltiadau rhwng profiadau dysgu eraill, neu ddefnyddio ymchwil a darllen ehangach.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion partneriaeth addysg gychwynnol athrawon:**

A1 Gysylltu eu gwaith mewn addysg gychwynnol athrawon yn gryfach â datblygu arfer a darpariaeth yn yr ysgol, ac yn enwedig â dysgu proffesiynol

A2 Gweithio'n agosach â'u partneriaid prifysgol i sicrhau bod gan fentoriaid y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol ar gyfer addysgwyr athrawon

A3 Datblygu cynlluniau trylwyr i wella medrau ymchwil staff ysgolion, gan wneud y mwyaf o'u partneriaeth â'u partner prifysgol

A4 Sicrhau bod gan uwch fentoriaid rôl strategol o ran datblygu mentoriaid ac o ran arfarnu effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth mewn addysg gychwynnol athrawon

A5 Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid prifysgol i gynllunio a gweithredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon sy'n sicrhau cyfuniad llwyddiannus o theori ac arfer.

**Dylai prifysgolion:**

A6 Weithio'n agosach ag ysgolion i gefnogi datblygiad medrau a strategaethau ymchwil

A7 Gwella hyfforddiant a datblygiad mentoriaid i ganolbwyntio'n fwy ar fedrau addysg athrawon

A8 Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu prosesau mwy trylwyr i arfarnu ansawdd mentora

A9 Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid prifysgol i gynllunio rhaglenni sy'n sicrhau cyfuniad llwyddiannus o theori ac arfer

A10 Cryfhau medrau myfyrio, arfarnu a dadansoddi beirniadol athrawon dan hyfforddiant

A11 Ar y cyd â'u hysgolion partner, ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o asesu myfyrwyr sy'n rhoi ystyriaeth dda i'w datblygiad tuag at SAC

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A12 Weithio gyda darparwyr addysg gychwynnol athrawon i gefnogi dull cenedlaethol o ddatblygu mentora mewn addysg gychwynnol athrawon

## Effaith mentora myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon ar yr ysgol fel sefydliad dysgu

### Beth yw'r manteision i'r ysgol?

12 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid mewn ysgolion partneriaeth addysg gychwynnol athrawon yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant. Defnyddiant dermau fel 'diben moesol' a 'dyletswydd broffesiynol' i ddisgrifio'r rhesymau dros eu rhan mewn addysg gychwynnol athrawon. Un o'r prif resymau a ddyfynnwyd am y bartneriaeth â darparwyr addysg gychwynnol athrawon yw helpu â recriwtio, yn enwedig athrawon mewn pynciau lle mae prinder fel mathemateg. Mae penaethiaid yn disgrifio manteision eraill cymryd rhan mewn hyfforddi athrawon dan hyfforddiant. Gan amlaf, mae penaethiaid yn cyfeirio at y syniadau newydd y mae myfyrwyr yn eu cynnig, a'u medrau cyfoes, yn enwedig eu medrau digidol.

13 Canfu llawer o benaethiaid hefyd fod mentora myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i athrawon. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n ystyried eu rhan mewn addysg gychwynnol athrawon yn strategol. Er eu bod yn cydnabod bod cymryd rhan mewn addysg gychwynnol athrawon yn ychwanegu at eu nodau ysgol gyfan i ddatblygu arfer a darpariaeth, ychydig iawn o ysgolion sy'n nodi'n benodol sut caiff eu hymglymiad ag addysg gychwynnol athrawon effaith ar wella medrau athrawon neu arweinwyr. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cynnwys y prosesau i gynorthwyo myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon, neu fanteision eu partneriaeth â darparwyr addysg gychwynnol athrawon wrth gynllunio eu datblygiad.

14 Mae ychydig iawn o benaethiaid yn nodi'r modd y mae eu partneriaeth â'r brifysgol o fudd i'r ysgol o ran gallu i fanteisio ar ymchwil a chael cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol achrededig. Mae ychydig o ysgolion sy'n datblygu ymagweddau newydd at addysg gychwynnol athrawon gyda'u partneriaid prifysgol yn nodi bod gofynion y mentrau hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o ymchwil addysgol, er enghraifft trwy fentoriaid yn cynorthwyo myfyrwyr â'u prosiectau ymchwil. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r strategaethau hyn, a chyfyngedig fu'r arfarniad o'r gwaith hwn ar y safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr a'r effaith ar staff yr ysgol fel ei gilydd.

15 Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion gynllun trylwyr i wella medrau ymchwil eu staff, gan gynnwys sut gallent elwa ar y cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a allai ddod i'r fei yn sgil partneriaeth â phrifysgol.

## Diwylliant yr ysgol

16 Mae diwylliant yr ysgol yn ffactor pwysig yn natblygiad effeithiol athrawon dan hyfforddiant. Mae mentora effeithiol yn digwydd mewn ysgolion lle ceir diwylliant dysgu proffesiynol cryf, lle rhoddir blaenoriaeth i addysgu ar draws yr ysgol, ac mae pob un o'r athrawon yn ymgymryd â'r dysgu hwn ar y cyd. Mae'r ysgolion hyn yn gweld eu hunain fel 'ysgolion dysgu' a bod yr arfer o ddatblygu athrawon dan hyfforddiant yn rhan o'r un broses â datblygu athrawon presennol. Mae'r ysgolion hyn yn mesur effaith eu hymglymiad ag addysg gychwynnol athrawon o ran y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae athrawon yn eu datblygu i wella arfer eu cymheiriaid, a'r modd y mae gwelliannau yn arfer athrawon yn cefnogi cynnydd disgyblion.

Yn **Ysgol Gyfun Treorci**, defnyddir hyfforddi ar draws yr ysgol, gan arweinwyr, staff a disgyblion fel dull ysgol gyfan o wella. Caiff unigolion eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu, ystyried unrhyw rwystrau rhag gwneud cynnydd a nodi'r camau angenrheidiol i symud ymlaen. Mae hyfforddi wedi dod yn rhan o ddiwylliant yr ysgol. Mae athrawon yn dod yn fedrus o ran gofyn cwestiynau sy'n hyrwyddo gwydnwch ac annibyniaeth, ac mae mentoriaid wedi addasu'r un ymagwedd at ddatblygu eu hathrawon dan hyfforddiant. Mae mentoriaid yn Nhreorci yn rhoi heriau proffesiynol i fyfyrwyr sy'n aml yn anghyfforddus ac yn eu cynorthwyo i lwyddo. Mae'r mentoriaid hyn yn adnabod eu myfyrwyr yn dda ac yn ymateb i anghenion datblygol myfyrwyr wrth iddynt gael mwy o brofiad.

17 Fodd bynnag, er bod llawer o ysgolion yn disgrifio eu hunain fel 'sefydliadau dysgu', a bod datblygu myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon yn rhan o gontinwwm dysgu proffesiynol, ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n gwneud digon o gysylltiadau rhwng y gwaith a wnânt i ddatblygu staff addysgu a mentora athrawon dan hyfforddiant. Hyd yn oed mewn llawer o ysgolion sydd wedi buddsoddi mewn hyfforddiant mewn mentora a hyfforddi, neu ble ceir systemau sefydledig ar gyfer arsylwi cymheiriaid, nid yw arweinwyr wedi ystyried y berthynas rhwng y gwaith hwn a mentora myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon. Yn aml, mae rhagdybiaeth y bydd mentoriaid yn syml yn trosglwyddo'r medrau hyn i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r dysgu proffesiynol hwn yn rhoi ystyriaeth ddigon da i sut i ddatblygu athrawon ar wahanol gyfnodau o'u gyrfa.

18 Mae ychydig o ysgolion sy'n archwilio defnyddio'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd yn dechrau ystyried y modd y gellir defnyddio'r safonau hyn i gydnabod y gwaith a wna mentoriaid i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant fel rhan o'u dysgu proffesiynol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae gan fentoriaid dargedau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'u mentora. Mae'r arfer hon yn pwysleisio pwysigrwydd y rôl mentora, ac yn cynnig ffordd y gall ysgolion fonitro effaith cynorthwyo myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon ymhlith eu staff ac yn yr ysgol.

## Dewis a lleoli mentoriaid yn strategol

19 Mae mentora effeithiol yn digwydd yn fwyaf cyson mewn ysgolion lle caiff mentoriaid ac uwch fentoriaid eu dewis yn strategol. Mae ganddynt statws uchel yn yr ysgol oherwydd eu rôl mewn dysgu proffesiynol.

Yn **Ysgol Eirias**, gwelir rôl y mentor fel swydd freintiedig, sy’n cynnig datblygiad proffesiynol gwerthfawr i staff i baratoi ar gyfer arweinyddiaeth ganol, neu ar gyfer y rheiny sy’n syml yn dymuno ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau ar adeg allweddol yn eu datblygiad proffesiynol. Mae’r ysgol wedi nodi llwybrau datblygu gyrfa ar gyfer staff. Mae hyn yn cynnwys llwybr mentora i gefnogi datblygiad medrau perthnasol, a sicrhau’r datblygiad proffesiynol parhaus sydd ei angen ar gyfer mentoriaid, neu ar gyfer y rheiny sy’n gweld hyn fel llwybr datblygu yn y dyfodol.

20 Nid oes dull cyffredin o ddewis mentoriaid mewn ysgolion partner addysg gychwynnol athrawon. Mewn llawer o achosion, mae mentoriaid yn dewis eu hunain. Nododd lleiafrif o fentoriaid eu bod yn gweld y rôl mentora yn gyfle i ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb. Fodd bynnag, at ei gilydd, mewn gormod o ysgolion, ni chynllunnir ar gyfer rôl y mentor yn ddigon da, naill ai fel llwybr dysgu cydlynus, nac fel rhan o strategaeth dysgu proffesiynol ysgol gyfan.

21 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae penaethiaid ac uwch fentoriaid yn sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael eu rhoi mewn dosbarthiadau nac adrannau lle mae arfer neu ddeilliannau gwan, neu ble mae angen datblygiad neu amser ar staff i greu sefydlogrwydd, er enghraifft lle mae pennaeth adran newydd.

22 Mae ychydig o benaethiaid yn nodi mentoriaid yn fwy strategol. Maent yn ystyried bod cynorthwyo mentoriaid yn fuddiol i ddatblygu medrau arwain a rheoli trwy’r ysgol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae penaethiaid yn sicrhau bod mentoriaid wedi ymgymryd â hyfforddiant arweinyddiaeth ganol fel eu bod yn datblygu’r medrau rhyngbersonol a’r ymddygiad i reoli pobl eraill, gan gynnwys cyflwyno adborth effeithiol a rheoli perthnasoedd heriol.

Yn **Ysgol Bro Myrddin**, mae’r uwch fentor (y pennaeth cynorthwyol yn yr ysgol) yn dewis pa aelodau o staff fydd yn cael eu hyfforddi fel mentoriaid yn ofalus iawn. Mae’n rhoi ystyriaeth briodol i faint o brofiad sydd gan aelodau o staff ac yn trafod effeithiolrwydd eu haddysgu dros gyfnod gyda’u rheolwyr llinell. Wedi i aelodau o staff gael eu nodi fel mentoriaid posibl, mae’r uwch fentor yn eu harsylwi yn addysgu ac yn cynnal trafodaeth ffurfiol yn gofyn iddynt arfarnu eu gwers eu hunain. Mae’r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar sut gallai’r athro wella ei (h)addysgu trwy fabwysiadu ystod ehangach o addysgeg.

23 Fel rhan o’u strategaeth i wella addysgu, ychydig iawn o ysgolion cynradd sy’n ei gwneud yn ofynnol i bob athro fod yn fentor. Pan fydd y dull hwn yn arwain at fentora llwyddiannus, mae penaethiaid yn sicrhau bod pob mentor yn gweithio mewn modd cyson sy’n cyd-fynd â datblygu addysgu ar draws yr ysgol.

24 Mae'r rhan fwyaf o uwch fentoriaid yn aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn yr ysgol. Mae eu disgrifiad o'u rôl fel arfer yn cwmpasu dysgu proffesiynol ar draws yr ysgol, gan gynnwys datblygu addysgu a chymorth ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANG). Mae hyn yn galluogi'r uwch fentor i gael goruchwyliaeth werthfawr o'r modd y mae gweithgareddau dysgu proffesiynol yn yr ysgol yn cysylltu â mentora myfyrwyr ac ymglymiad yr ysgol ag addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'r uwch fentoriaid yn ystyried eu rôl yn fwy gweithredol, ac nid ydynt yn cysylltu eu cyfrifoldebau'n ddigon cydlynus fel bod ymglymiad ag addysg gychwynnol athrawon yn cael yr effaith fwyaf buddiol ar yr ysgol.

25 Mae'r rhan fwyaf o uwch fentoriaid yn gweld mai eu rôl yw cydlynu mentora ar draws yr ysgol. Mae mwyafrif yr uwch fentoriaid yn cymryd cyfrifoldeb am les myfyrwyr ac mae eu myfyrwyr yn gweld yr agwedd hon ar y rôl yn fuddiol i'w cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o uwch fentoriaid yn ystyried mai eu cyfrifoldeb yw darparu golwg 'allanol' ar gynnydd myfyrwyr, ac mae lleiafrif o uwch fentoriaid yn gweld mai eu rôl yw cael cyfrifoldeb cynyddol am sicrhau ansawdd gwaith mentoriaid. Fodd bynnag, mae'r agwedd hon ar sicrhau ansawdd yn ymwneud yn fwy â darparu cysondeb â phrosesau partneriaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar ansawdd mentora.

# Mentora effeithiol

## Dealltwriaeth mentoriaid o'u rôl

26 Mae pob darparwr addysg gychwynnol athrawon yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau mentoriaid yn glir. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfod â myfyrwyr yn rheolaidd i drafod eu cynnydd, cefnogi cynllunio, addysgu ac asesu myfyrwyr, helpu myfyrwyr i ddeall materion ysgol gyfan, monitro ffeiliau myfyrwyr, helpu myfyrwyr i fyfyrio'n feirniadol ar eu harfer, ac asesu myfyrwyr yn unol â'r safonau ar gyfer SAC. Mae pob canolfan addysg gychwynnol athrawon yn pwysleisio pwysigrwydd perthynas ymddiriedus ac agored rhwng mentor a myfyriwr, a bod cefnogi lles myfyrwyr yn agwedd bwysig ar y rôl. Mae gan y rhan fwyaf o fentoriaid ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau, yn unol â'r hyn a ddiffinnir gan y darparwr addysg gychwynnol athrawon.

27 Fodd bynnag, dywed myfyrwyr fod amrywiad mawr ym maint yr amser ac ansawdd y cymorth y mae eu mentoriaid yn eu rhoi iddynt. Mae ychydig o fyfyrwyr wedi cael eu mentora'n wael yn ystod eu rhaglen. Maent yn disgrifio mentoriaid yr oedd yn ymddangos nad oes ganddynt ryw lawer o amser iddynt, a oedd yn ddibrofiad neu nid oeddent yn darparu'r arweiniad yr oeddent yn ei ddisgwyl ar y cyfan.

28 Yn yr ysgolion y nodwyd gan ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon bod ganddynt arfer dda mewn mentora, mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn ymdrin â'u rôl yn ddifrifol. Maent yn gweld eu hunain fel rhai sy'n gwneud cyfraniad pwysig at y proffesiwn.

29 Mae llawer o fentoriaid yn disgrifio eu rôl fel un sydd mewn dau faes. Y rôl gyntaf yw cynorthwyo myfyrwyr trwy fod yn 'ffrind beirniadol', gadael i fyfyrwyr wneud camgymeriadau a bod yno i roi cyngor ac arweiniad i wella eu haddysgu. Maent yn cydnabod bod angen cymorth bugeiliol ar fyfyrwyr yn aml i ymdopi â gofynion emosiynol addysgu a siarad am bwysigrwydd bod yn bobl hawdd mynd atynt ac yn ddiplomataidd. Yn ail, maent yn gweld eu rôl fel aseswyr (yr hyn y mae Hobson a Malderez (2013) yn ei ddisgrifio fel 'mentora-barnu'), ac yn gwybod y safonau ar gyfer SAC ac asesu myfyrwyr yn gywir. Mae ychydig o fentoriaid yn nodi rhai o fedrau allweddol mentora, fel holi a gwrando medrus. Ychydig iawn o fentoriaid sy'n gweld eu rôl fel addysgwyr athrawon sy'n ymgymryd ag addysgeg addysg gychwynnol athrawon, neu'n nodi'n benodol y dulliau y maent yn eu defnyddio i addysgu myfyrwyr ynglŷn â sut i addysgu, gan gynnwys datblygu gwybodaeth bwnc a datblygu addysgeg.

## Ymgysylltiad mentoriaid â dysgu proffesiynol

30 Mae gan fentoriaid effeithiol nodweddion penodol. Maent yn ymgymryd yn aml â dysgu proffesiynol. Mae ganddynt ddealltwriaeth o ymchwil yn yr ystafell ddosbarth ac yn ymgymryd â gwaith ymchwil. Maent yn rhan o ddatblygiadau ysgol gyfan. Mae ganddynt rinweddau personol sy'n eu galluogi i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant.

31 Mae mentoriaid effeithiol yn defnyddio eu medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant, a hyrwyddo dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa.

Hefyd, maent yn gwybod sut i ddefnyddio'r safonau SAC i annog dull cyfannol a phersonol o fod yn athro, yn deall dilyniant mewn addysg gychwynnol athrawon, ac yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i fod y gorau y gallant.

32 Gall y mentoriaid hyn annog a datblygu'r un medrau dadansoddi a myfyrio ('partneriaeth dysgu beirniadol') ymhlith eu myfyrwyr. Mae hyn yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddechrau eu llwybr at ddysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa.

33 Mae angen medrau cymhleth ar gyfer mentora effeithiol. Mae Cain (2009, tud. 2) yn disgrifio mentora fel gweithgaredd sy'n seiliedig ar 'berthynas unigryw sy'n cynnwys cydadwaith eithriadol o gymhleth o ffactorau gwybyddol, affeithiol a rhyngbersonol'. Mae hyd yn oed y mentoriaid hynny sy'n arddangos tuedd naturiol i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant, neu'r rheiny sy'n fentoriaid profiadol, wedi gwella eu medrau trwy hyfforddiant a datblygiad pellach.

34 Mae'r nifer fach o fentoriaid mwyaf medrus yn ymgymryd â dysgu proffesiynol, er nad yw hyn bob amser wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â mentora athrawon dan hyfforddiant. Mae mentoriaid sy'n ymchwilio i arfer ystafell ddosbarth yn creu sylfaen wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cynorthwyo myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon. Mae'r mentoriaid hyn yn defnyddio dull ymholgar a dadansoddol i ddarganfod y strategaethau addysgu mwyaf effeithiol, ac yn annog yr un fath ymhlith eu hathrawon dan hyfforddiant. Hefyd, mae eu dealltwriaeth o ddulliau ymchwil yn helpu myfyrwyr i wneud eu haseiniadau ymchwil ar raddfa fach yn fwy llwyddiannus.

35 Mae'r mentora mwyaf effeithiol yn digwydd mewn ysgolion sydd â ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol pob un o'r staff, yn enwedig lle ceir strategaeth glir ar gyfer datblygu addysgu. Mae mentoriaid yn yr ysgolion hyn yn frwdfrydig i wella eu haddysgu eu hunain ac yn cynorthwyo eu cydweithwyr i wneud yr un fath. Mae cyfleoedd mewnol ac allanol ar gyfer dysgu proffesiynol yn helpu'r mentoriaid hyn i fyfyrio ar eu harfer eu hunain ac mae'n cynyddu eu hymwybyddiaeth ynglŷn â sut i ddatblygu fel athro. Mae'r mentoriaid hyn yn defnyddio eu medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant. Maent yn fodelau rôl da sy'n hyrwyddo dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa.

36 Mae mentoriaid sydd wedi cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol mewn mentora a hyfforddi yn siarad â dealltwriaeth well o'r medrau, y dulliau a'r technegau sydd eu hangen i fentora'n llwyddiannus. Mewn ychydig o achosion, mae mentoriaid yn addasu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am hyfforddi a mentora athrawon profiadol i gyd-destun cynorthwyo athrawon newydd yn fedrus. Er enghraifft, trwy eirio cwestiynau'n fwy perthnasol, neu drwy ddod o hyd i ffyrdd i ymestyn cynnydd myfyrwyr hynod gymwys.

37 Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ar y cyd o fentora a hyfforddi, a gall hyn arwain at gamsyniadau o ran datblygu arfer athrawon sy'n dechrau ar eu gyrfa. Er enghraifft, defnyddio modelau hyfforddi sy'n disgwyl i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth a phrofiadau nad oes ganddynt.

38 Mae ychydig o fentoriaid sydd wedi dilyn rhaglenni arwain yn trosglwyddo agweddau ar yr hyfforddiant hwn yn ddeallus i'r cyd-destun mentora. Yn benodol, mae eu dysgu am fedrau rhyngbersonol, adeiladu tîm a datblygu pobl eraill wedi eu helpu i ddatblygu'r ymwybyddiaeth emosiynol i roi adborth i fyfyrwyr sy'n sensitif, yn galonogol ac ysgogol.

Mae mentoriaid yn **Ysgol Gyfun Treorci** yn defnyddio technoleg fideo i recordio gwers y myfyriwr. Cofnodir gwers y myfyriwr, a gofynnir i'r myfyriwr adolygu'r wers a nodi meysydd pwysig i'w trafod (gan gynnwys nodweddion cryf a gwannach). Mae'r mentor yn gwneud yr un fath. Wedyn, mae'r mentor a'r myfyriwr yn defnyddio'r fideo yn ystod adborth y wers i drafod meysydd cryfder a meysydd i'w datblygu. Mae'r mentor yn darparu model holi beirniadol, a rhoddir cyfle gwerthfawr i'r myfyriwr ymarfer myfyrio strwythuredig.

### Arfer asesu: adborth llafar

39 Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn cyfarfod â'u myfyrwyr yn rheolaidd i drafod eu cynnydd. Maent yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig ar wersi y maent wedi'u harsylwi ac yn trafod cynnydd a ffyrdd ymlaen er mwyn i fyfyrwyr fodloni'r safonau ar gyfer SAC.

40 Mae mentoriaid effeithiol yn defnyddio dull cynyddol o ddatblygu eu hathrawon dan hyfforddiant. Maent yn rhoi'r syniad o gontinwwm cymorth ar waith, sy'n dechrau ag arweiniad a chyfleoedd strwythuredig i roi cynnig ar ddulliau addysgu, trwy ddefnyddio strategaethau fel addysgu tîm. Pan ddaw myfyrwyr yn fwy hyfedr, byddant yn arwain drwy 'hyfforddi' yn bennaf, gan alluogi myfyrwyr i arbrofi â dulliau, a'u harfarnu drostynt eu hunain. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i ddod yn fwy annibynnol.

41 Mae llawer o fentoriaid yn rhoi adborth llafar parhaus i fyfyrwyr trwy gydol eu profiadau ysgol. Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn cyfarfod â'u myfyrwyr o leiaf unwaith yr wythnos i drafod cynnydd myfyrwyr yn ffurfiol, a llenwi ffurflenni asesu a monitro, yn unol â gofynion y ganolfan. Mae llawer o fyfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn, ac yn gweld bod adborth mentoriaid yn eu helpu i ddeall y safonau ar gyfer SAC, datblygu eu hyder a gwella eu medrau trefnu.

42 Mae'r mentoriaid mwyaf effeithiol yn addysgu eu myfyrwyr gan ddefnyddio 'sgyrsiau dysgu'. Nid adborth yn unig yw hwn, ond deialog adeiladol sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae bron pob mentor yn cydnabod bod hyn yn arfer effeithiol, ond mae gormod o fentoriaid yn rhoi cyngor sy'n rhagnodol, wedi'i seilio ar eu harfer a'u hatebion eu hunain, ac anaml y mae'n cyfeirio at theori addysgol, hyd yn oed gyda myfyrwyr mwy hyfedr a'r rheiny sy'n agosáu at ddiwedd eu rhaglen. Yn hyn o beth, nid ydynt yn datblygu medrau myfyriol a beirniadol myfyrwyr yn ddigon da.

43 Yn yr enghreifftiau gorau o adborth llafar, mae mentoriaid yn dangos medrau gwrando cryf. Maent yn galluogi'r myfyriwr i arwain yr arfarniad o'r wers ac yn defnyddio holi a her effeithiol i hyrwyddo myfyrio beirniadol. Maent yn darparu model

arfarnu effeithiol. Maent yn trafod atebion posibl i fynd i'r afael â meysydd i'r myfyriwr eu datblygu sy'n meithrin dysgu proffesiynol.

### Arfer asesu: adborth ysgrifenedig

44 Mae bron pob mentor yn rhoi adborth ysgrifenedig i fyfyrwyr ar ôl arsylwadau gwersi ffurfiol. Mewn llawer o achosion, mae'r cofnodion ffurfiol hyn yn fanwl, yn arfarnol ar y cyfan, ac yn cyfeirio'n briodol at y safonau ar gyfer SAC. Mae pob canolfan addysg gychwynnol athrawon yn darparu arweiniad buddiol i alluogi mentoriaid, tiwtoriaid a myfyrwyr i farnu cynnydd yn erbyn y safonau. Mae'r arweiniad hwn wedi arwain at gysondeb gwell o ran arfer wrth i fentoriaid asesu cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr ar brofiad ysgol. Fodd bynnag, mae'r arweiniad a ddarperir yn atal mentoriaid rhag defnyddio ystod lawn y graddau, ac yn ymarferol, mae'r broses o ddyfarnu graddau barn yn rhy fecanistig. Mae'r arweiniad yn annog gostyngiad mewn graddau tuag at ddechrau profiad ysgol myfyrwyr. Ym mhob canolfan, mae'r disgrifydd ar gyfer y radd uchaf yn afrealistig o uchelgeisiol hefyd ac mae'n anodd i'w ddehongli. Fodd bynnag, yn bwysicach, mewn llawer o achosion, mae asesu cyrhaeddiad a chynnydd myfyrwyr yn rhy atomyddol, ac nid yw'n caniatáu ar gyfer asesiad mwy soffistigedig o gynnydd myfyrwyr yn ei gyfanrwydd a thros gyfnod.

45 Ar y cyfan, mae myfyrwyr yn rhoi gwerth uchel ar yr adborth ysgrifenedig a ddarperir gan fentoriaid, er eu bod yn gweld bod adborth llafar yn fwy defnyddiol o ran cefnogi eu cynnydd, a'i roi yn ei gyd-destun. Mae llawer o fyfyrwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r broses a ddefnyddir ar gyfer eu barnu. Maent yn gweld yr arweiniad ar gyfer barnu eu cynnydd yn ddefnyddiol o ran olrhain eu cynnydd. Fodd bynnag, teimlai lleiafrif o fyfyrwyr fod gormod o amrywiad yn nehongliad mentoriaid o'r disgrifwyr barnau. Roeddent yn teimlo nad oedd y targedau a osodwyd ar eu cyfer yn eu helpu o reidrwydd i symud tuag at wella eu gradd.

46 Pan gaiff myfyrwyr adborth ysgrifenedig gan eu tiwtoriaid prifysgol, gwelodd myfyrwyr fod hyn yn eithriadol o fuddiol, yn enwedig o ran creu'r cysylltiadau rhwng astudiaethau prifysgol a phrofiad ysgol.

### Gosod targedau

47 Mae bron pob mentor yn gosod targedau ar gyfer myfyrwyr fel rhan o'u hadborth ysgrifenedig ar gynnydd myfyrwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r targedau hyn wedi'u cysylltu'n dda â'r safonau ar gyfer SAC, ac mae llawer ohonynt yn cyfeirio'n benodol at y meysydd pwysicaf i'w datblygu a gafwyd o addysgu myfyrwyr. Mae bron pob mentor yn awgrymu strategaethau ar gyfer gwella.

48 Yn yr arfarniadau cynnar o gynnydd myfyrwyr, mae llawer o fentoriaid yn fedrus o ran nodi'r materion allweddol i fyfyrwyr fynd i'r afael â nhw. Yn y cyfnod hwn ar ddechrau datblygiad, mae'r ffyrdd a awgrymir i fodloni'r targedau hyn yn briodol o benodol. Fodd bynnag, tuag at ddiwedd profiadau ysgol myfyrwyr, nid yw lleiafrif o dargedau'n cysylltu'n ddigon da â beirniadaethau a nodwyd wrth asesu addysgu. Nid yw lleiafrif o dargedau'n ddigon penodol, ac nid ydynt yn nodi medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth benodol, er enghraifft 'byddwch yn fwy hyderus', neu 'defnyddiwch strategaethau addysgu mwy dychmygus'. Mewn mwyafrif o achosion, mae'r strategaethau a awgrymir ar gyfer gwella naill ai'n rhy eang ac wedi'u hysgrifennu fel

targedau pellach, er enghraifft 'datblygwch eich medrau holi', neu maent yn rhy gyfyng ac yn nodi un ateb i broblem, er enghraifft trefnu disgyblion mewn grwpiau mewn ffordd benodol, neu ddefnyddio byrddau gwyn bach.

49 Er bod myfyrwyr, mewn llawer o achosion, yn gweld bod y broses gosod targedau yn ffurfio rhan o sgwrs ehangach am eu cynnydd, at ei gilydd, nid yw'r targedau a'r strategaethau a awgrymir yn ffurfio rhan o broses ddysgu gydlynus lle caiff myfyrwyr eu hannog i fyfyrio ar eu harfer a darganfod atebion drostynt eu hunain.

50 Yn yr enghreifftiau gorau, mae mentoriaid yn cydnabod y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen ar fyfyrwyr ar wahanol gyfnodau o'u datblygiad. Maent yn cyfeirio myfyrwyr tuag at ddysgu pellach, fel testunau damcaniaethol neu ddysgu gan athrawon eraill. Maent yn annog myfyrwyr i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu, fel y gall y mentor a'r myfyriwr gael sgwrs wybodus am y ffyrdd gorau ymlaen.

### Defnyddio llyfrau sylwadau

51 Mae pob darparwr addysg gychwynnol athrawon yn annog arfer o ddefnyddio llyfr sylwadau ffurfiannol er mwyn i fentoriaid roi adborth parhaus i fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu bod yr holl athrawon a staff cymorth sy'n gweithio gyda'r myfyrwyr yn gallu darparu adborth anffurfiol ac uniongyrchol. Mae llawer o fyfyrwyr yn gweld hyn yn fuddiol a chefnogol. Mewn achosion gorau, mae mentoriaid yn defnyddio gwybodaeth o'r llyfr sylwadau i roi golwg mwy cyflawn o gynnydd myfyrwyr. Fodd bynnag, weithiau, mae sylwadau'n rhy arwynebol i ddarparu adborth adeiladol. Mae llawer o fyfyrwyr yn gweld y sylwadau hyn yn ddefnyddiol wrth arfarnu gwersi, ond, mewn lleiafrif o achosion, nid yw myfyrwyr yn myfyrio ar y sylwadau hyn yn ddigon da ac maent yn dibynnu'n ormodol ar yr adborth yn y llyfr sylwadau. Mae hyn yn arwain at arfarniadau sy'n ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol.

### Darparu profiadau dysgu strwythuredig

52 Mae'r mentoriaid mwyaf effeithiol yn defnyddio eu sgyrsiau ac adborth ffurfiol ac anffurfiol i fyfyrwyr yn fedrus i gynllunio profiadau dysgu sy'n helpu myfyrwyr i fodloni eu targedau a gwella. Er enghraifft, mae mentoriaid yn trefnu i fyfyrwyr arsylwi athrawon eraill yn yr ysgol i fynd i'r afael â diffygion penodol yn addysgu'r myfyrwyr, fel technegau holi neu reoli ymddygiad. Yn yr enghreifftiau gorau, mae mentoriaid yn helpu myfyrwyr i strwythuro'r profiadau dysgu hyn, fel bod myfyrwyr yn canolbwyntio'n fanwl gywir ar y medrau a fydd yn eu helpu i wella. Er enghraifft, maent yn helpu'r myfyriwr i ofyn cwestiynau ar gyfer eu sesiwn arsylwi, fel y gallant ddadansoddi addysgu pobl eraill yn feirniadol er mwyn iddynt allu datblygu strategaethau llwyddiannus sy'n gweddu i'w harddull addysgu ddatblygol eu hunain. Mae'r mentoriaid hyn yn adnabod eu myfyrwyr yn dda ac yn nodi'r profiadau dysgu mwyaf effeithiol ar gyfer cyfnod datblygu'r myfyrwyr.

53 Mae ychydig o fentoriaid effeithiol yn helpu myfyrwyr i ddadansoddi dulliau addysgu trwy fodelu addysgu yn eu dosbarthiadau eu hunain i fyfyrwyr eu harsylwi. Mae'r profiadau hyn yn gyfle i fyfyrwyr drafod beth sy'n gweithio'n dda mewn cyd-destunau penodol, ac archwilio agweddau ar addysgeg. Mae'r mentoriaid effeithiol hyn yn hyderus yn eu harfer eu hunain, ac maent hefyd yn agored ac yn barod i drafod ble mae addysgu'n llai effeithiol, a'r hyn y byddent yn ei wneud i wella. Mae'r mentoriaid hyn yn fodelau rôl da ar gyfer myfyrio ac arfarnu.

54 Mewn ychydig o ysgolion, mae mentoriaid yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn agweddau ar raglen dysgu proffesiynol yr ysgol. Mae lleiafrif o fyfyrwyr wedi elwa'n werthfawr ar ymuno â grwpiau dysgu proffesiynol, hyfforddiant mewn swydd (HMS), a sesiynau cyfnos sy'n ymwneud yn benodol â medrau y maent yn anelu at eu datblygu.

55 Mae'r canolfannau addysg gychwynnol athrawon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu rhaglen o sesiynau datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Ar y cyfan, mae'r rhaglenni hyn yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr ddysgu am faterion ysgol gyfan, fel y dull o gasglu data, neu strategaethau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Hefyd, mae'r rhaglen yn rhoi ymwybyddiaeth i fyfyrwyr o rolau ymarferwyr ac uwch arweinwyr amrywiol yn yr ysgol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio'n ddigon gofalus i alluogi myfyrwyr i gyfuno theori ac arfer addysgu. Yn ychwanegol, mewn llawer o achosion, nid yw rhaglenni yn yr ysgol yn cyfateb yn ddigon da i'r rhaglen yn y brifysgol. Mae hyn yn golygu na chaiff myfyrwyr ddigon o gyfleoedd i adeiladu ar eu dealltwriaeth yn y ffordd fwyaf cydlynus.

56 Yn gyffredinol, mae gan fentoriaid ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r cwrs yn y brifysgol. Yn benodol, mae eu gwybodaeth am y modd y mae'r rhaglen, a'u cyfraniad at hyn, yn datblygu medrau myfyrio beirniadol athrawon, yn gyfyngedig. Mae gormod o fentoriaid nad ydynt yn cydnabod mai eu rôl yw helpu athrawon dan hyfforddiant i wneud cysylltiadau rhwng agweddau damcaniaethol ar eu dysgu a'u harfer yn yr ystafell ddosbarth.

Yn **Ysgol Pentrehafod**, mae'r rhaglen astudiaethau proffesiynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau arfarnol a myfyriol. Yn unol ag ysgolion eraill, mae athrawon dan hyfforddiant yn cyfarfod bob wythnos i drafod amrywiaeth o destunau gyda staff perthnasol. Yn ychwanegol, yn dilyn y cyfarfodydd hyn, caiff athrawon dan hyfforddiant sesiwn gyda'r uwch fentor lle maent yn trafod sut gallent gymhwyso eu dealltwriaeth o'r testun i'w harfer eu hunain trwy gynllunio tasg neu weithgaredd i'w roi ar waith mewn gwers. Wedyn, gofynnir i fyfyrwyr gyflwyno arfarniad o ba mor dda y gweithiodd a'r hyn y gallent ei wneud yn wahanol y tro nesaf i'r uwch fentor, sy'n rhoi sylwadau ar yr arfarniad ac yn dychwelyd hyn i'r myfyrwyr.

### Cefnogi lles myfyrwyr

57 Mewn llawer o achosion, mae myfyrwyr yn meithrin perthnasoedd proffesiynol cryf â'u mentoriaid. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i ofyn cwestiynau a chael arweiniad gan eu mentoriaid i gefnogi eu datblygiad yn effeithiol. Yn benodol, mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r berthynas hon yn cefnogi eu lles. Mae gan fentoriaid effeithiol fedrau rhyngbersonol cryf a gallant ddarparu asesiadau teg a beirniadol mewn ffordd sensitif a chlir. Maent yn cydnabod bod canmoliaeth ddoeth yn bwysig a bod angen cryn dipyn o gymorth ar fyfyrwyr i ddelio â straen a heriau eu rhaglen a'r bregusrwydd y byddant yn ei brofi fel athro newydd. Mae lleiafrif o fentoriaid yn rhoi

cyngor strwythuredig i gefnogi eu cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, fel arweiniad am gynllunio gwersi a phwysigrwydd gorffwys ac adferiad yn ystod profiad ysgol. Mae mentoriaid effeithiol yn defnyddio eu profiadau eu hunain fel myfyrwyr i gynorthwyo myfyrwyr.

58 Nodwedd bwysig yn natblygiad athro newydd yw'r teimlad o 'berthyn i'r ysgol'. Mae uwch fentoriaid a mentoriaid effeithiol yn gwneud yn siŵr bod myfyrwyr yn cael eu croesawu i gymuned yr ysgol. Maent yn esbonio'n glir ofynion proffesiynol yr ysgol ac yn ennyn diddordeb myfyrwyr ym mywyd yr ysgol gyfan hefyd, fel cynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau allgyrsiol, neu'n gwahodd myfyrwyr i gyfarfodydd staff a nosweithiau rhieni. Maent yn helpu myfyrwyr i feithrin perthnasoedd gweithio da gydag oedolion eraill yn yr ysgol, er enghraifft trwy helpu myfyrwyr i gynllunio ochr yn ochr â chynorthwywyr addysgu.

59 Un agwedd ar alluogi'r myfyriwr i deimlo'n fwy cyfforddus yn ei brofiad ysgol yw helpu myfyrwyr i deimlo y gallant fentro yn eu haddysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae mentoriaid effeithiol yn galluogi myfyrwyr i brofi syniadau a chynorthwyo myfyrwyr â defnyddio dull yn seiliedig ar ymchwil trwy helpu myfyrwyr i arfarnu'r cryfderau a'r gwendidau yn eu dulliau arbrofol.

### Hyfforddi a datblygu mentoriaid

60 Ar hyn o bryd, nid yw'r hyfforddiant a datblygiad i fentoriaid a ddarperir gan y canolfannau addysg gychwynnol athrawon yn mynd i'r afael yn benodol â'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i fentora'n llwyddiannus. Nid oes diffiniad ar y cyd o fentora mewn darparwyr addysg gychwynnol athrawon a ledled Cymru, ac mae hyn yn golygu bod arfer a dealltwriaeth o'r broses fentora yn amrywio gormod.

61 Mae pob darparwr addysg gychwynnol athrawon yn ystyried dulliau newydd o fentora datblygiad i fodloni gofynion y cyrsiau a achredwyd yn ddiweddar. Yn ddiweddar, mae darparwyr addysg gychwynnol athrawon wedi llunio arweiniad defnyddiol i fentoriaid sicrhau cysondeb gwell o ran arfer wrth i fentoriaid asesu cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr ar brofiad ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad ar asesu ar gyfer mentoriaid i helpu mentoriaid, tiwtoriaid a myfyrwyr i olrhain ac asesu cynnydd yn erbyn y safonau ar gyfer SAC a gweithdrefnau gwell ar gyfer sicrhau ansawdd.

62 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch hyfforddi a datblygu mentoriaid yn rhoi gormod o bwyslais ar gwblhau dogfennau, ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu mentoriaid fel addysgwyr athrawon. Yn ychwanegol, mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn elfennau'r rhaglenni yn yr ysgol yn pwysleisio cydymffurfio â gweithdrefnau asesu ac alinio barnau, ar draul gwella ansawdd arfer mentora yn gyffredinol.

63 Nid yw hyfforddiant a datblygiad ar gyfer uwch fentoriaid yn pwysleisio'n ddigon da rôl yr uwch fentor i arwain addysg gychwynnol athrawon yn eu hysgol, neu ystyried y modd y mae mentora yn cysylltu ag agweddau ar strategaethau dysgu proffesiynol ysgol gyfan mewn arweinyddiaeth neu addysgu.

## Sicrhau ansawdd a gwella arfer

64 Mae gan bob canolfan addysg gychwynnol athrawon brosesau i sicrhau ansawdd asesu profiadau myfyrwyr yn yr ysgol, ac adolygu arfer mentoriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cymedroli gan diwtoriaid prifysgol ar draws ysgolion partneriaeth, dadansoddi adborth ysgrifenedig mentoriaid a defnyddio canfyddiadau o arolygon myfyrwyr. Fodd bynnag, mae'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n ormodol ar agweddau ar gysondeb a chydymffurfio ar draul arfarnu a gwella ansawdd mentora.


65 Mae arsylwadau ar y cyd rhwng tiwtoriaid prifysgol a mentoriaid ysgol, ac uwch fentoriaid a mentoriaid, yn arfer gyffredin ar draws darparwyr addysg gychwynnol athrawon. Mae'r broses hon yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i drafod y barnau a ddyfernir i fyfyrwyr a gwneud asesiad teg. Mewn ychydig o achosion, mae mentoriaid newydd yn siarad yn gadarnhaol am y modd y mae tiwtoriaid prifysgol yn modelu adborth effeithiol i fyfyrwyr ac wedyn yn mynd yn ôl i'r ysgol i fonitro arfer y mentor. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni ddefnyddir arsylwadau ar y cyd yn ddigon da fel llwyfan i drafod arfer mentora. Nid yw darparwyr addysg gychwynnol athrawon yn nodi nac yn rhannu arfer dda wrth fentora yn ddigon da.


66 Mae'r ysgolion partneriaeth hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymedroli, lle mae mentoriaid yn cyfarfod â'i gilydd i drafod canlyniadau eu myfyrwyr ynghyd â thystiolaeth o gynnydd, yn gweld y gweithgaredd hwn yn fuddiol o ran sicrhau cysondeb mewn asesu. Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r adborth y mae mentoriaid yn ei ddarparu ar ôl y gweithgaredd hwn ac yn credu bod hyn yn dod â lefel dda o wrthrychedd i'w hasesiad. Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle nad yw cyfleoedd i drafod arfer mentora, a strategaethau i wella canlyniadau myfyrwyr, wedi'u datblygu'n ddigonol.

67 Mewn llawer o ysgolion lle mae mentora'n fwy effeithiol, mae uwch fentoriaid yn cyfarfod â'u mentoriaid yn rheolaidd. Mae ychydig o uwch fentoriaid yn defnyddio'r cyfle hwn i roi adborth i fentoriaid ar eu harfer a thrafod dulliau ymarferol o ddatblygu addysgu myfyrwyr. Ychydig iawn o fentoriaid ac uwch fentoriaid yn unig sy'n ystyried effeithiolrwydd mentora yn ddigon da. Hefyd, mewn gormod o ysgolion partneriaeth, nid yw mentoriaid ac uwch fentoriaid yn derbyn adborth ar eu harfer gan arweinwyr ysgol na chan eu prifysgol partner.

Yn **Ysgol Gymraeg Caerffili**, mae mentoriaid yn cyfarfod bob pythefnos, p'un a oes ganddynt fyfyriwr ai peidio, i sicrhau ansawdd gwaith ei gilydd. Maent yn siarad am arsylwadau gwersi ac yn craffu ar ffurflenni adborth ffurfiol. Mae hwn yn lle pwysig i fentoriaid drafod unrhyw ansicrwydd a allai godi. Nid yw'r ysgol yn tybio bod pob mentor yn gwybod popeth ac felly nid oes angen rhagor o hyfforddiant arnynt. Mae mentoriaid yn yr ysgol yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r cyfleoedd i drafod problemau a chael cyngor. Trwy ryngweithio â mentoriaid eraill, maent yn aml yn darganfod atebion i heriau ei gilydd.

# Mae'r mentoriaid mwyaf effeithiol...




Yn gweithio mewn ysgolion lle mae ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol yr holl staff a strategaeth glir ar gyfer datblygu addysgu.
Yn cael eu dewis oherwydd eu medrau, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u rhinweddau personol.
Yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n gywir, yn deg ac yn rhoi barn gyfannol am gynnydd y myfyriwr gydag amser.
Maent yn gosod targedau sy'n llunio rhan o broses ddysgu gydlynol lle y caiff myfyrwyr eu hannog i fyfyrio a darganfod atebion drostynt e hunain.
Yn deall dilyniant mewn AGA ac yn cydnabod bod angen amrywiol ymagweddau at fentora ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion,
medrau a phriodweddau gwahanol, ac sydd wedi cyrraedd camau gwahanol yn eu datblygiad.
Maent yn targedu myfyrwyr tuag at ddysgu pellach yn uniongyrchol.
Yn cefnogi lles myfyrwyr yn dda trwy adeiladu perthnasoedd proffesiynol cryf, rhoi cyngor
Yn gwella'u haddysgu eu hunain yn rhagweithiol.
Maent yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol i ddatblygu'u medrau addysgu ac ymchwil eu hunain, gan archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.
Maent yn fodel da ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa.
ac arweiniad amserol a meithrin amgylchedd lle y mae myfyrwyr yn teimlo'n hyderus i brofi syniadau yn ymarferol.
Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y medrau a'r ymddygiadau i reoli eraill,
cyflwyno adborth effeithiol a rheoli perthnasoedd heriol.
Lawrlwythwch y poster

## Datblygu medrau dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa

68 I ddatblygu'r medrau, yr agweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa, mae angen i fyfyrwyr feithrin medrau myfyrio, meddwl yn feirniadol ac arfarnu. Mae angen iddynt ymgymryd ag ymchwil a deialog broffesiynol gyda'u mentoriaid a'u tiwtoriaid i wneud y cysylltiadau hanfodol rhwng theori ac arfer a fydd yn eu galluogi i barhau i ddatblygu eu medrau yn eu gyrfa addysgu. Yn ychwanegol, mae angen iddynt feithrin eu gwydnwch i ymdopi â sefyllfaoedd sy'n achosi straen a delio â rhwystrau. Nid yw canolfannau addysg gychwynnol athrawon a'u hysgolion partneriaeth yn sicrhau'n ddigon da fod myfyrwyr yn cael amser dynodedig a phrofiadau dysgu strwythuredig yn yr ysgol i ystyried y cysylltiadau rhwng theori ac arfer. Mae canolfannau addysg gychwynnol athrawon yn dechrau cynnwys profiadau o'r fath mewn rhaglenni, ond mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r gwaith hwn.

69 Mae llawer o fyfyrwyr yn ystyried elfennau yn yr ysgol ac yn y brifysgol eu rhaglenni yn nodedig ac unigryw. Maent yn gweld mai eu profiadau yn yr ysgol yw'r rhan bwysicaf o'r rhaglen gan mai yn yr ysgol y maent yn dysgu sut i addysgu. Maent yn deall pwysigrwydd cysylltu theori ac arfer, ond roeddent yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynorthwyo'n ddigonol i wneud y cysylltiadau hyn, naill ai yn yr ysgol nac yn y brifysgol.

70 Ychydig iawn o fyfyrwyr sy'n gallu nodi'r medrau y mae angen iddynt eu cael ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa. Mae mwyafrif o fyfyrwyr yn cydnabod bod myfyrio ar eu harfer yn bwysig i'w datblygiad parhaus fel athrawon.

71 Mae pob darparwr addysg gychwynnol athrawon yn helpu myfyrwyr i drefnu eu myfyrdodau trwy fframweithiau strwythuredig ar gyfer arfarnu ysgrifenedig. Mae'r rhain yn helpu myfyrwyr i ystyried agweddau ar eu haddysgu a dysgu disgyblion, a chynnig eu targedau eu hunain ar gyfer gwella. Fodd bynnag, ar y cyfan, yn eu harfarniadau ysgrifenedig o'u haddysgu a chynnydd yn erbyn eu targedau, nid yw myfyrwyr yn myfyrio'n ddigon beirniadol. Nid ydynt yn cyflwyno tystiolaeth o feddwl dyfnach, fel creu cysylltiadau rhwng profiadau dysgu eraill, neu ddefnyddio ymchwil a darllen ehangach. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr yn gwneud digon o gynnydd yn y medrau hyn dros gyfnod eu rhaglen. Ychydig iawn o fentoriaid a oedd yn trafod arfarniadau ysgrifenedig myfyrwyr, neu'n rhoi adborth i helpu myfyrwyr i wella'r agwedd hon ar eu gwaith. Yn ychwanegol, roedd llawer o fyfyrwyr yn ystyried eu harfarniadau ysgrifenedig fel tasg i'w chwblhau, yn hytrach na datblygu medrau pwysig wrth ddod yn athro.

72 Ychydig o fyfyrwyr yn unig sy'n gwneud cysylltiadau effeithiol rhwng eu harfarniadau gwersi a'u cynllunio gwersi. Nid yw mwyafrif o fyfyrwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar sicrhau bod eu hamcanion dysgu cynlluniedig ar gyfer disgyblion yn disgrifio dysgu'n ddigon penodol, ac yn ei dro, mae hyn yn golygu nad yw eu harfarniadau gwersi'n dadansoddi'n ddigon da pa mor llwyddiannus oedd eu strategaethau addysgu cynlluniedig o ran helpu disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu.

73 Yn yr enghreifftiau gorau, mae mentora’n rhoi cyfleoedd i ddatblygu medrau ac agweddau beirniadol a myfyriol myfyrwyr trwy sgyrsiau dysgu sy’n cysylltu theori â datblygu arfer. Maent yn helpu myfyrwyr i feithrin y medrau y mae arnynt eu hangen ar gyfer cynllunio ac arfarnu effeithiol trwy gyfeirio at ymchwil addysgegol a’r modd y mae hyn yn cysylltu â phrofiad a chyd-destun. Mae’r mentoriaid hyn yn siarad am greu cynlluniau gwersi gyda’u myfyrwyr, ac ar ôl gwersi, maent yn defnyddio’r cynlluniau i helpu myfyrwyr i arfarnu’n benodol ble a pham nad oedd dysgu’n effeithiol. Maent yn helpu myfyrwyr i weld sut mae cynllunio gwersi yn cyd-fynd â’r ‘darlun mawr’ o brofiadau dysgu disgyblion, er enghraifft trwy ddangos y modd y mae datblygu medrau llafaredd disgyblion yn cysylltu â’u hysgrifennu, neu sut caiff dysgu ei adeiladu o un flwyddyn i’r llall.

74 Ar y cyfan, mae cymorth mentoriaid ar gyfer cynllunio myfyrwyr yn rhy amrywiol. Er bod mentoriaid gan amlaf yn gwirio cynllunio myfyrwyr cyn iddynt addysgu gwers, mae yn bennaf er mwyn sicrhau cydymffurfio â chynlluniau gwaith, neu fod cynllunio yn briodol ar y cyfan.

75 Mae’r mentoriaid mwyaf effeithiol yn cydnabod bod myfyrwyr llai profiadol yn aml yn meddu ar wybodaeth annigonol am fedrau penodol, fel rheoli ymddygiad, holi neu wahaniaethu er mwyn gallu myfyrio ar eu cynnydd gyda chryn feirniadaeth. Mae’r mentoriaid hyn yn fedrus yn cyfeirio myfyrwyr tuag at y wybodaeth sy’n addas ar gyfer cyfnod datblygu’r myfyrwyr.

76 Nid yw llawer o fyfyrwyr yn gwneud cysylltiadau digon da rhwng yr aseiniadau y mae’n ofynnol iddynt eu hysgrifennu a datblygiad eu medrau addysgu. Roedd mwyafrif o fyfyrwyr yn gweld ysgrifennu aseiniadau yn feichus, ac nid oedd wedi’i gysylltu’n ddigon buddiol i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o addysgu. Teimlai ychydig o fyfyrwyr y gellid amseru eu haseiniadau’n fwy defnyddiol fel eu bod yn gysylltiedig â’u datblygiad fel athrawon, fel y gallent gael golwg mwy gwybodus ar agweddau pwysig ar eu harfer, fel asesu, yn gynharach yn eu rhaglen.

77 Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn elwa ar brosiectau ymchwil weithredu sy’n gofyn iddynt gasglu tystiolaeth o’u profiad ysgol a chysylltu hyn â darllen am theori addysgol. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, bu myfyrwyr yn gweithio gyda’u mentoriaid ar brosiectau o’r fath. Dywedodd mentoriaid fod y gwaith hwn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i archwilio agweddau ar addysgeg a oedd hefyd yn fuddiol i’w harfer eu hunain ac i wella ysgolion yn gyffredinol.

78 Dywed llawer o fyfyrwyr eu bod wedi elwa ar y gwaith y mae darparwyr addysg gychwynnol athrawon wedi’i wneud i wella lles myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys sesiynau penodol yn y brifysgol ac yn yr ysgol sy’n helpu myfyrwyr i ddatblygu cydbwysedd priodol rhwng bywyd a gwaith a’r cymorth gwerthfawr a gynigiwyd iddynt gan fentoriaid a thiwtoriaid prifysgol i ddelio â sefyllfaoedd sy’n achosi straen. Mae ychydig o fyfyrwyr wedi gweld bod yr ymyriadau a ddarperir gan y ganolfan addysg gychwynnol athrawon i ddatrys perthnasoedd anodd ag ysgolion yn eithriadol o werthfawr wrth eu helpu i barhau ar eu rhaglen yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ychydig iawn o fyfyrwyr yn unig a nododd fod gwydnwch yn allweddol ar gyfer eu datblygiad parhaus. Mynegodd ychydig iawn o fyfyrwyr amheuon am eu gallu i ddelio â’r hyn yr oeddent yn eu hystyried yn bwysau parhaus addysgu.

79 Mewn llawer o ysgolion, mae gan fentoriaid ac arweinwyr wybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffyrdd y mae'r brifysgol yn datblygu medrau meddwl yn feirniadol a myfyrio athrawon dan hyfforddiant. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cysylltiadau â'r dysgu hwn i gynorthwyo'r athrawes dan hyfforddiant i ddatblygu'r agwedd hon ar ei harfer broffesiynol.

80 Mae ysgolion lle mae mentora yn effeithiol hefyd yn cynnwys eu myfyrwyr yn llawn yn y gweithgareddau dysgu proffesiynol a gynhelir yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi model arfer dda mewn dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa i fyfyrwyr, a darlun realistig o'r hyn y mae ysgolion da yn ei wneud.

Yn **Ysgol Gynradd Bryn Deva**, mae athrawon dan hyfforddiant yn ennill gwybodaeth gref am amrywiaeth y dulliau dysgu proffesiynol y mae staff yr ysgol yn ymgymryd â nhw. Mae profiadau uniongyrchol gwerthfawr yn cynnwys: mynychu datblygiad staff ysgol gyfan, cymryd rhan mewn menter cwricwlwm ysgol gyfan fel Ysgol Arloesi, cwrs hyfforddi allanol, digwyddiad cymedroli clwstwr, sesiynau cymorth 'galw i mewn' mewnol dan arweiniad athrawon, arsylwi addysgu a chynllunio ar y cyd gan gymheiriaid (gyda'i mentor ac ymgynghorydd llythrennedd y consortiwm). O ganlyniad, mae myfyrwyr yn datblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu gydol oes. Maent yn cydnabod bod ymgymryd â dysgu ym mhob cyfnod o'u gyrfa yn hanfodol ar gyfer twf personol a phroffesiynol. Mae myfyrwyr yn cofnodi a myfyrio ar brofiadau proffesiynol i nodi'r camau nesaf ar gyfer datblygu.

Trwy integreiddio a mynd i'r afael ag anghenion datblygu'r myfyrwyr yn y strategaeth ysgol gyfan ehangach ar gyfer dysgu proffesiynol, mae arweinwyr wedi helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall pwysigrwydd dysgu proffesiynol i gyfoethogi, datblygu a gwella arfer broffesiynol. Mae myfyrwyr yn deall yn dda sut mae ymarferwyr yn elwa ar ddulliau cydweithredol. Mae hon yn arfer gref ar arfer fentora'r ysgol.

## Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio ymweliadau ag 20 ysgol, a thair canolfan addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

Nodwyd yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau gan y canolfannau addysg gychwynnol athrawon fel enghreifftiau o arfer dda o ran mentora. Mae’r sampl yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Wrth ymweld â’r ysgolion hyn, bu arolygwyr:

- yn cynnal trafodaethau ag aelodau o’r tîm arwain
- yn cyfweld â’r uwch fentor a mentoriaid yn yr ysgol
- yn arsylwi’r mentor yn rhoi adborth i’w fyfyriwr/myfyriwr ar ôl arsylwi gwers
- yn cyfarfod â myfyrwyr i drafod eu barn ar eu rhaglen addysg gychwynnol athrawon
- yn craffu ar ffeiliau’r myfyrwyr
- yn adolygu’r gwaith papur a gwblhawyd gan fentoriaid ac uwch fentoriaid

Rhestr o ysgolion yr ymwelwyd â nhw:

Ysgol Alun
Ysgol Bro Myrddin
Ysgol Bryn Deva
Ysgol Gyfun Coedcae
Ysgol Gyfun Treorci
Ysgol Gymraeg Caerffili
Ysgol Gynradd Coed Efa
Ysgol Gynradd Craig Yr Hesg
Ysgol Gynradd Palmerston
Ysgol Gynradd Pontarddulais
Ysgol Gynradd Sirol Sychdyn
Ysgol Gynradd Tregatwg
Ysgol Gynradd Ystrad Mynach
Ysgol Pentrehafod
Ysgol Uwchradd Aberteifi
Ysgol Uwchradd Crucywel
Ysgol Uwchradd Eirias
Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Mair Fendigaid
Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph
Ysgol Y Dderwen

## Atodiad 1

### Cwestiynau hunanarfarnu ar gyfer ysgolion

- Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer datblygu athrawon dan hyfforddiant?
- Sut ydym ni’n dangos ein hymrwymiad i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant?
- Sut ydym ni’n arfarnu effaith ein hymglymiad ag addysg gychwynnol athrawon?
- Sut mae ein hymglymiad ag addysg gychwynnol athrawon yn cyfrannu at ein diwylliant dysgu proffesiynol a datblygiad ein staff ein hunain?
- A ydym ni’n gwneud cysylltiadau cryf rhwng ein gwaith i ddatblygu addysgu a datblygiad athrawon dan hyfforddiant?
- Sut gallwn ni wneud y mwyaf o’n partneriaeth â’r brifysgol i gefnogi dysgu proffesiynol ein hathrawon?
- Pa mor dda ydym ni’n gweithio gyda’n partner prifysgol i wneud yn siŵr bod pob un o’r staff sy’n cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn meddu ar y medrau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth angenrheidiol i wneud hynny?
- A yw pob un o’r mentoriaid wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol yn y medrau rhyngbersonol sydd eu hangen arnynt i reoli pobl eraill, cyflwyno adborth effeithiol a rheoli perthnasoedd heriol?
- A oes gennym gynllun cadarn i ddatblygu medrau ymchwil ein staff?
- Sut ydym ni’n barnu effeithiolrwydd ein mentoriaid? Ein huwch fentoriaid?
- A ydym yn cael golwg gyffredinol ar ansawdd y mentora yn yr ysgol? Pa mor dda ydym ni’n gweithio gyda’n partneriaid prifysgol i rannu’r wybodaeth hon?
- Sut ydym ni’n rhannu enghreifftiau o arfer orau mewn mentora – yn yr ysgol? Ar draws y bartneriaeth?
- Pa mor dda ydym ni’n cynorthwyo mentoriaid ac uwch fentoriaid y mae angen eu datblygu?
- Sut gallwn ni ddefnyddio’r Safonau Addysgu Proffesiynol i gynorthwyo ein mentoriaid i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth?
- Sut ydym ni’n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da? Pa fesurau sydd gennym ar waith i sicrhau na therfir ar ddysgu disgyblion?
- Pa mor dda ydym ni’n gwneud cysylltiadau rhwng y rhaglen yn yr ysgol a’r rhaglen yn y brifysgol?
- Beth yw’r manteision i gysylltu ag ysgolion eraill yn y bartneriaeth i’n staff a’n disgyblion?

### Cwestiynau hunanarfarnu ar gyfer prifysgolion

- A oes gennym strategaeth glir i ddatblygu rôl mentoriaid ac uwch fentoriaid sy’n cyfrannu’n effeithiol at ein gweledigaeth ar gyfer addysg athrawon?
- Pa mor dda ydym ni’n sicrhau bod gan fentoriaid y medrau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth angenrheidiol i fod yn addysgwyr athrawon effeithiol?
- Pa mor dda ydym ni’n gweithio gyda’n hysgolion partner i gefnogi datblygiad medrau a strategaethau ymchwil?
- Pa mor dda ydym ni’n gweithio gyda’n hysgolion i arfarnu ansawdd y mentora?

- Pa mor dda ydym ni'n sicrhau bod gwybodaeth a thystiolaeth o arfarnu mentora yn cyfrannu at ein harfer o gynllunio gwelliant?
- Pa mor dda ydym ni'n cynorthwyo uwch fentoriaid fel eu bod yn cyfrannu at ddatblygu mentora effeithiol?
- A oes gennym strategaethau effeithiol i rannu arfer dda o ran mentora ac uwch fentora?
- Pa mor effeithiol yw ein strategaethau i gynorthwyo mentoriaid unigol y mae angen eu datblygu?
- Pa mor dda ydym ni'n gweithio gyda'n hysgolion i gynllunio rhaglenni sy'n sicrhau cyfuniad llwyddiannus o theori ac arfer?
- Pa mor dda ydym ni'n datblygu medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol myfyrwyr? Sut ydym ni'n barnu cynnydd myfyrwyr yn y maes hwn?
- A ydym ni'n cynllunio a dylunio aseiniadau sy'n helpu myfyrwyr i holi ynghylch ymchwil addysgol i ddatblygu eu haddysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol?
- Pa mor effeithiol y caiff cynnydd myfyrwyr ei asesu i a) sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu eu haddysgu mewn ffordd gyfannol a phersonol a b) darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i farnu ansawdd y ddarpariaeth?

# Atodiad 2

## Egwyddorion Mentora a Hyfforddi (Llywodraeth Cymru, 2014)

Mae'r ddogfen yn amlinellu deg egwyddor mentora a hyfforddi effeithiol:

Mae mentora a hyfforddi effeithiol yn cynnwys:

- sgwrs am ddysgu wedi'i strwythuro o amgylch deialog broffesiynol, sydd wedi'i gwreiddio mewn tystiolaeth o arfer y dysgwr proffesiynol, sy'n mynegi credoau ac arferion presennol er mwyn gallu myfyrio arnynt
- perthynas ystyriol sy'n datblygu ymddiriedaeth, gan ymdrin yn barchus a sensitif â'r emosiynau pwerus sy'n gysylltiedig â dysgu proffesiynol dwfn
- cytundeb dysgu sy'n sefydlu hyder am ffiniau'r berthynas trwy gytuno ac ategu rheolau sylfaenol sy'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd o ran pŵer ac atebolrwydd
- cyfuno cymorth gan gyd-ddysgwyr proffesiynol ac arbenigwyr yn cydweithio â chydweithwyr i gynnal ymrwymiad i ddysgu a chysylltu mewnbynnau arbenigol ag arfer bob dydd; gan fynd ati i sicrhau arbenigedd i ymestyn medrau a gwybodaeth a modelu arfer dda
- proses hunangyfeirio ac esblygu gynyddol lle mae'r dysgwr yn cymryd rheolaeth gynyddol dros ei ddatblygiad proffesiynol, wrth i fedrau, gwybodaeth a hunanymwybyddiaeth gynyddu
- gosod nodau heriol a phersonol gan nodi nodau sydd wedi'u gwreiddio mewn dyheadau ar gyfer disgyblion sy'n adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud eisoes tra'n cyflawni blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau unigol
- deall pam mae gwahanol ddulliau'n gweithio trwy ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymeg ar gyfer dulliau newydd fel y gellir datblygu arfer a theori ochr yn ochr a'u haddasu ar gyfer gwahanol gyd-destunau
- cydnabod y manteision i'r mentoriaid a'r hyfforddwyr gan gydnabod y dysgu proffesiynol y mae mentoriaid a hyfforddwyr yn ei ennill o'r cyfle i fentora neu hyfforddi a'u defnyddio i ddangos dysgu proffesiynol
- arbrofi ac arsylwi creu amgylchedd dysgu sy'n cefnogi mentro ac arloesedd ac yn annog dysgwyr proffesiynol i chwilio am dystiolaeth uniongyrchol o arfer, a'i dadansoddi
- defnyddio adnoddau'n effeithiol gan wneud a defnyddio amser ac adnoddau eraill yn greadigol i ddiogelu a chynnal dysgu, gweithredu a myfyrio o ddydd i ddydd

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Mentor** | Dosbarth yn yr ysgol neu athro pwnc sydd â chyfrifoldeb am athrawon dan hyfforddiant |
| **Tiwtor** | Darlithydd yn y brifysgol sydd â chyfrifoldeb am athrawon dan hyfforddiant |
| **Uwch fentor** | Mentor yn yr ysgol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am fentora yn yr ysgol |
| **Ysgolion partneriaeth** | Ysgolion sydd wedi gwneud cytundeb partneriaeth ffurfiol â darparwr addysg gychwynnol athrawon i ddarparu profiadau dysgu ar gyfer athrawon dan hyfforddiant |

### Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Cain, T. (2009) Mentoring trainee teachers: how can mentors use research? [Ar-lein] *Mentoring & Tutoring*: *Partnership in Learning*. **17** (1) 53-66. Ar gael o: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13611260802233498?scroll=top&needAccess=true [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]

Clutterbuck, D. (2004) *Everyone needs a mentor: Fostering Talent in your Organisation*, 4th ed., London: Institute of Chartered Personnel and Development.

Estyn (2016) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accesible_WEB.pdf [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]

Furlong, J. (2015) *Addysgu Athrawon Yfory. Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.* Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-cy.pdf [Defnyddiwyd 17 Hydref 2017]

Hattie, J. a Timperley, H. (2007) The Power of Feedback. [Ar-lein]. *Review of Educational Research,* **77** (1), 81-112. Ar gael o: http://education.qld.gov.au/staff/development/performance/resources/readings/power-feedback.pdf [Defnyddiwyd 22 Gorffennaf 2018]

Hobson, A. a Malderez, A. (2013) Judgementoring and other threats to realizing the potential of school-based mentoring in teacher education. [Ar-lein]. *International Journal of Mentoring and Coaching in Education*, **2** (2), 89-108. Ar gael o: http://shura.shu.ac.uk/7224/ [Defnyddiwyd 30 Hydref 2017]

Llywodraeth Cymru (2014) *Egwyddorion Mentora a Hyfforddi.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140214-curee-leaflet-cy.pdf [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]

Llywodraeth Cymru (2015) *Ymarfer myfyriol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150611-reflective-practice-booklet-cy.pdf [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Addysgu athrawon yfory*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170310-accreditation-criteria-for-initial-teacher-education-cy-v3.pdf [Defnyddiwyd 17 Hydref 2017]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-cy.pdf [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]

Llywodraeth Cymru (2018) *Myfyrwyr cymwysedig AGA yng Nghymru yn ôl math o radd a lefel ysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/initial-teacher-education/students-in-Wales/qualifiersonitecoursesinwales-by-degreetype-schoollevel-year [Defnyddiwyd 18 Medi 2018]

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: an OECD Perspective*. Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf [Defnyddiwyd 17 Hydref 2017]

OECD (2016) *What makes a school a learning organisation? A guide for policy makers, school leaders and teachers.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf [Defnyddiwyd 17 Hydref 2017]

Tabberer, R. (2013) *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/adolygiad-o-hyfforddiant-cychwynnol-athrawon-2013_0.pdf [Defnyddiwyd 18 Hydref 2017]